
Llywodraeth y DU
Cymru

UC Credyd Cynhwysol



Ydych chi'n derbyn **Lwfans Cyflogaeth** a **Chymorth yn seiliedig ar incwm?**

# Cadwch bethau i fynd trwy **symud** i Gredyd Cynhwysol

Ni fydd yn awtomatig, felly cadwch lygaid allan am lythyr yn dweud wrthych beth fydd angen i chi ei wneud a phryd. Darganfyddwch gymorth a mwy o wybodaeth nawr yn **gov.uk/symud-i-uc**

**Mae'r daflen hon er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n hysbysiad trosglwyddo**

## Ydych chi'n derbyn **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm?**

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli **chwe hen fudd-dal,** gan gynnwys **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm (ESA),** o dan un **taliad misol.**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr **Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)** yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi pryd mae angen i chi wneud cais am **Gredyd Cynhwysol.**

Mae'r llythyr hwn - a elwir yn **Hysbysiad Trosglwyddo** – yn esbonio beth sydd angen i chi ei wneud a phryd.

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Bydd angen i chi wneud cais am **Gredyd Cynhwysol** erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno yn eich llythyr i barhau i dderbyn cymorth ariannol.

**Ni chewch eich symud yn awtomatig.**

**1.** Arhoswch nes i chi dderbyn eich llythyr **Hysbysiad Trosglwyddo.**

**2.** Ar ôl i chi dderbyn eich llythyr, gwnewch eich cais am **Gredyd Cynhwysol** cyn gynted ag y gallwch - *o fewn eich terfyn amser y cytunwyd arno.

**3.** Os ydych angen unrhyw help neu gefnogaeth, darperir manylion yn y llythyr, neu gallwch ymweld â **www.gov.uk/symudiuc**

## Lle gallaf ddod o hyd i fwy o wybodaeth?

Peidiwch â phoeni, gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am sut i wneud cais am Gredyd Cynhwysol trwy ymweld â **www.gov.uk/symudiuc**

Yma gallwch hefyd ddod o hyd i ddolenni i ffynonellau cymorth pellach a chyngor annibynnol. Os ydych yng Ngogledd Iwerddon, ewch i **www.nidirect.gov.uk/campaigns/move-universal-credit**

Os oes dal gennych gwestiynau am eich **symud i Gredyd Cynhwysol** gallwch **ffonio'r rhif** yn eich Hysbysiad Trosglwyddo.

Mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol